Asesiad Effaith Amgylcheddol

Prosiectau Coedwigaeth



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Asesiad Effaith Amgylcheddol Prosiectau Coedwigaeth

Cyflwyniad i'r Rheolau Cyflwyniad i'r Rheolau

Y Rheolau cyfredol yw Rheolau Asesiad Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 [SI 1999/2228] a Rheolau Asesiad Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Yr Alban) 1999 [SI 1999/43]. Roedd y rhain yn diwygio Rheolau Asesiad Amgylcheddol (Coedwigaeth) 1998 [SI 1998/1731].

Daeth y Rheolau newydd hyn i rym ar 6ed Medi 1999 ac maent yn mynnu i unrhyw un sydd am weithredu prosiect perthnasol (h.y. datgoedwigo, coedwigo, ffyrdd coedwig neu chwareli a all gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd) i gael caniatâd ar gyfer y gwaith gan y Comisiwn Coedwigaeth. Rhaid i'r ymgeisydd neu gynigiwr gyflwyno Datganiad Amgylcheddol mewn cefnogaeth o'r cynigion er mwyn gwneud cais am ganiatâd.

Dyma grynodeb o ofyniadau Rheolau 1999:

a) Dyma'r rhestr o fathau posibl o brosiectau perthnasol lle mae'n bosibl bod rhaid i'r Comisiwn Coedwigaeth wneud penderfyniad ar a fydd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA/EIA): datgoedwigo, coedwigo, ffyrdd coedwig a chwareli coedwig);

b) Sefydlwyd **trothwyon** i ddiffinio'r prosiectau coedwigaeth hynny na fydd angen eu hystyried am AEA/EIA fel arfer;

c) diffinir **ardaloedd teimladol** lle nad yw trothwyon yn berthnasol neu lle mae'r trothwyon yn is;

ch) gwneir **penderfyniadau ar yr angen am AEA/EIA** bellach ar gyfer pob prosiect sydd yn uwch na'r trothwyon. Yn eithriadol, gall y Comisiynwyr Coedwigaeth neu'r awdurdod llywodraethol* fynnu penderfyniad ar gyfer prosiectau sydd yn is na'r trothwyon. Mae penderfyniad yn rhedeg allan ar ôl 5 mlynedd;

** Gweinidog Amaethyddiaeth Pysgodfeydd a Bwyd yn Lloegr, Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghymru a Gweinidogion yr Alban yn yr Alban.*

d) cynhwysir **darpariaeth asesu maint**. Pan fydd angen AEA/EIA, gall cynigydd ofyn i'r Comisiwn Coedwigaeth am farn ffurfiol ar faint y wybodaeth sydd i'w darparu mewn Datganiad Amgylcheddol (DA/ES);

dd) **cyhoeddusrwydd** - rhoddir cyhoeddusrwydd i benderfyniadau AEA/EIA, barn meintiau, Datganiadau Amgylcheddol a chyfarwyddebau gan yr awdurdod Llywodraethol*. Gwneir hyn trwy gyfrwng cofrestr gyhoeddus a gedwir yn swyddfeydd Gwarchodfa'r Comisiwn Coedwigaeth. Yn y pendraw bydd y gofrestr hon ar gael ar y Rhyngrwyd.

Penderfynu

Bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn asesu'r canlynol:

- **mae'r prosiect arfaethedig mewn un o'r categorïau canlynol – coedwigo, datgoedwigo, ffyrdd coedwig neu chwareli;**
- **mae'r safle uwchben y trothwy priodol (yn cynnwys estyniadau i feysydd tebyg o waith);**
- **mae'r prosiect yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.**

Bydd angen ein caniatâd i fynd ymlaen â'r gwaith os bydd eich argymhellion yn cwrdd â phob un o'r gofyniadau hyn. Gofynnir i chi gyflwyno Datganiad Amgylcheddol er mwyn caniatáu i ni benderfynu ai rhoi caniatâd ai peidio.

Diffiniad Prosiectau Perthnasol

O dan Reolau 1999, ystyrir argymhellion yn brosiectau perthnasol (h.y. bod angen AEA/EIA) os ydynt yn dod o fewn y categorïau a restrir isod **a'r gwaith arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd**.

a) **Coedwigo cychwynnol:**
creu coetiroedd a choedwigoedd newydd trwy blannu coed (ar dir sydd heb goed ers blynyddoedd). Mae'r categori hwn yn cynnwys defnyddio hau uniongyrchol neu atgynhyrchu naturiol, plannu coed Nadolig a choed copi cylchrediad byr;

b) **Datgoedwigo:**
trosi coetir i ddefnydd tir arall (e.e.rhostir);

c) **Ffyrdd coedwig:**
adeiladau ffyrdd coedwig, gan gynnwys y rhai o fewn coedwig a'r rhai yn arwain at goedwig;

ch) **Chwareli coedwig:**
chwarelu am ddefnyddiau (cerrig, tywod a graean) i adeiladu, newid neu gynnal ffyrdd coedwig.

Gallwn gyflwyno Rhybudd Gorfodi i chi os byddwch yn gwneud gwaith ar brosiect y byddai angen ein caniatâd ar ei gyfer. Bydd y rhybudd hwn yn mynnu i chi gydymffurfio â'r Rheolau.

Gall sefyllfeydd godi lle mae un o'r prosiectau coedwigaeth uchod yn rhan o ddatblygiad ehangach sydd angen caniatâd cynllunio. O dan yr amgylchiadau hyn, ni drinir unrhyw AEA/EIA angenrheidiol o dan Reolau AEA/EIA Coedwigaeth ond yn hytrach o dan y Rheolau AEA/EIA Cynllunio Tref a Gwlad cyfatebol.

Argymhellion sydd yn ymestyn arwynebedd prosiect a oedd gynt o dan trothwy'r arwynebedd

Lle y cwblhawyd prosiect oddi ar 6 Medi 1999, mae'n bosibl y bydd angen ein caniatâd ar gyfer argymhellion gwaith o'r un math (gan gynnwys gwaith ar dir mewn gwahanol berchnogaeth) sydd yn ei ymestyn y tu hwnt i'r trothwyon. Mae hyn yn wir hefyd lle mae cyfanswm arwynebedd yr holl brosiectau cyffiniol plws yr argymhellion newydd yn mynd y tu hwnt i'r trothwyon.

Trothwyon

Mae'r tabl yn **Atodiad 1** yn dangos y trothwyon arwynebedd ar gyfer pob categori o brosiect coedwigaeth. Os bydd arwynebedd y gwaith arfaethedig o dan y trothwyon hyn nid yw'n debygol o fod yn brosiect perthnasol a ni fydd angen ein caniatâd o dan y Rheolau AEA/EIA. Wrth gwrs mae'n bosibl y bydd angen i chi gael trwydded torri coed neu gymeradwyaeth o dan y Cynllun Grant Coetir am y gwaith.

Os bydd eich prosiect y tu hwnt i'r trothwyon arwynebedd hyn, *mae'n bosibl* y bydd angen ein caniatâd i wneud y gwaith.

Cael ein barn

Rhaid i chi ddarparu'r canlynol fel y bydd modd i ni roi ein barn ar a ydyw'r gwaith yr ydych yn ei argymell yn brosiect perthnasol ac felly a oes angen ein caniatâd:

a) map yn dangos yr arwynebedd a maint y prosiect. (Dylai hyn fod yn fap clir yr Arolwg Ordnans ar raddfa o 1:10 000 neu 1:2 500);

b) disgrifiad byr o'r gwaith arfaethedig a'i effeithiau posibl *sylweddol* ar yr amgylchedd;

c) unrhyw wybodaeth arall a all fod yn berthnasol, e.e. mapiau rhywogaethau, cynlluniau, lluniau, ac yn y blaen

Yn y rhan fwyaf o achosion darperir y wybodaeth hon fel rhan o gais Cynllun Grant Coetir (coedwigo cychwynnol) neu gais am drwydded torri coed (datgoedwigo) neu Gynllun Coedwig .

Os byddwn yn dod yn ymwybyddus o argymhellion y mae angen ein caniatâd ar eu cyfer, byddwn yn rhoi ein barn i'r unigolyn y buasai rhaid iddo, yn ein tyb ni, ofyn am ein caniatâd.

Amserlen am roi ein barn

Byddwn yn rhoi ein barn, yn ysgrifenedig, o fewn 28 o ddiwrnodau o dderbyn y wybodaeth angenrheidiol. Ond os bydd angen mwy o wybodaeth i'n helpu ni i benderfynu, yna byddwn yn rhoi ein penderfyniad i chi o fewn 28 o ddiwrnodau o dderbyn y wybodaeth hon. Os bydd ein penderfyniad yn cymryd mwy o amser byddwn yn ceisio cytuno ar gyfnod addas gyda chi.

Apelio ynglŷn â'n penderfyniad

Os byddwn yn dweud wrthych chi bod eich argymhelliad yn brosiect perthnasol, neu os na fyddwn yn rhoi ein barn i chi o fewn yr amser cytuniedig, cewch apelio'n ysgrifenedig i'r canlynol:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghymru
Gweinidog Amaethyddiaeth Pysgodfeydd a Bwyd yn Lloegr,
Gweinidogion yr Alban (parthed Yr Alban);

am 'gyfarwyddyd' ar a ydyw'r gwaith yn brosiect perthnasol.

Cyhoeddi ein penderfyniad

Unwaith y byddwn wedi'ch hysbysu chi o'n penderfyniad byddwn yn cyhoeddi hynny ar *"Gofrestr Gyhoeddus AEA/EIA"* a gedwir yn swyddfeydd y Comisiwn Coedwigaeth. Bydd honno'n dangos gwybodaeth ar ein barn ar a ydyw prosiect yn brosiect perthnasol, ein penderfyniad ynglŷn â rhoi caniatâd ac unrhyw cyfarwyddyd a wnaed gan yr awdurdod priodol neu Weinidogion yr Alban.

Cael ein Caniatâd

Sut i wneud cais

Rhaid i ni gael y wybodaeth ganlynol fel y bydd modd i ni wneud penderfyniad:-

a) map yn dangos lleoliad y prosiect arfaethedig.(Dylai hyn fod yn fap clir yr Arolwg Ordnans ar raddfa o 1:10 000 neu 1:2 500);

b) disgrifiad byr o'r gwaith arfaethedig a'i effeithiau posibl sylweddol ar yr amgylchedd;

c) unrhyw wybodaeth arall a all fod yn berthnasol, e.e. mapiau rhywogaethau, cynlluniau, lluniau, ac yn y blaen;

(Os ydych wedi gofyn am ein Barn o dan Rheolau AEA/EIA neu wedi gwneud cais am Gynllun Grant Coetir neu Gynllun Coedwig mae'n bosibl y byddwch wedi rhoi digon o wybodaeth eisoes).

ch) Datganiad Amgylcheddol am y gwaith;

d) copi o'r hysbysiad y mae rhaid i chi ei osod mewn papurau newydd (gw. isod).

Cael y wybodaeth iawn yn eich Datganiad Amgylcheddol (DA/ES)

Cyn i chi ddechrau paratoi eich DA/ES, byddwn yn eich annog i gwrdd â ni i drafod y testunau amgylcheddol arwyddocaol y bydd rhaid eu cynnwys, neu i ofyn am wybodaeth i'ch helpu chi. Yn gynnar yn y broses, argymhellir yn gryf i chi gysylltu â'r cyrff cefn gwlad* a gofyn am unrhyw wybodaeth sydd yn berthnasol i'r prosiect. *[Dylech nodi ei bod yn bosibl y byddwn yn codi tâl am y wybodaeth hon].*

* *Yng Nghymru - Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd;*
Yn Lloegr - Asiantaeth Cefn Gwlad, Natur Lloegr, Asiantaeth yr Amgylchedd; Treftadaeth Lloegr;
Yn yr Alban - Treftadaeth Natur yr Alban, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban.

Hefyd dylid cynnal cyfarfod meintioli lle y gall y cyrff cefn gwlad a'r cyrff a all fod â diddordeb yn yr argymhellion gynnig cyngor neu wybodaeth.

Paratoi'r DA/ES

Nid oes ffurf sefydlog ar gyfer DA/ES ond rhaid iddo gynnwys y wybodaeth safonol a nodir yn **Atodiad 2**. Rhaid i'ch Datganiad gynnwys popeth o'r rhestr sydd yn ymwneud â'ch cais, gan bwysleisio'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol. Mae mwy o wybodaeth ar gael hefyd ynglyn â pharatoi Datganiad Amgylcheddol yn ein llyfryn - *"Paratoi Datganiad Amgylcheddol ar gyfer Prosiect Coedwigaeth"*. Cyhoeddir y llyfryn hwn ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth **www.forestry.gov.uk** yn 2001.

Gall anfon copi drafft o'ch DA/ES cyn paratoi'r copi terfynol hwyluso'ch cais. Bydd hyn yn ein helpu penderfynu a ydych wedi cynnwys pob testun perthnasol. Os bydd rhaid i ni gael mwy o wybodaeth i'n helpu penderfynu ynglŷn â'ch cais, rhaid i chi gyflwyno honno. Byddwn hefyd yn dweud wrthych chi faint o gopïau o fersiwn terfynol y DA/ES y bydd angen ei gael.

Cyhoeddusrwydd ynglŷn â'r cais

Os ydych wedi gwneud cais am ganiatâd a pharatoi DA/ES, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad yn rhoi'r manylion a amlinellir isod. Byddwn yn cytuno ar o leiaf dau bapur newydd y mae rhaid i'r hysbysiad ymddangos ynddynt.

Rhaid i'r hysbysiad gwneud y canlynol:

a) nodi i gais am ein cydsyniad o dan y Rheolau gael ei wneud;

b) dangos ymhle (ac ar ba pryd) y gellir archwilio copïau o'r cais am gydsyniad (swyddfa leol y Comisiwn Coedwigaeth neu leoliadau eraill y byddwn yn cytuno);

c) rhoi'r cyfeiriad lle mae modd i bobl gael copïau o'r cais;

ch) rhoi manylion o unrhyw dâl a godir am gopïau - i gwrdd â chostau argraffu, copïo a dosbarthu yn unig;

d) nodi bod rhaid gwneud sylwadau ynglŷn â'r cais i'r Gwarchodwr perthnasol y Comisiwn Coedwigaeth o fewn 28 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad.

Ymgynghori ynglŷn â'r cais

Byddwn hefyd yn rhoi manylion o'ch cais i'r corff cefn gwlad priodol yn ogystal a'r awdurdod lleol sydd â budd yn y cais. Rhaid iddynt roi eu sylwadau o fewn 28 o ddiwrnodau.

Rhoi ein penderfyniad ynglŷn â'ch cais

Byddwn yn rhoi ein penderfyniad i chi (a'r rhesymau amdano) yn ysgrifenedig, unwaith y bydd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau am sylwadau wedi rhedeg allan a ninnau wedi ystyried y wybodaeth amgylcheddol, unrhyw gyflwyniadau ac unrhyw ystyriaethau materol eraill. Cyhoeddir hysbysiad yn rhoi manylion o'n penderfyniad yn yr un papurau newydd lle yr ymddangosodd yr hysbysiad cychwynnol ynglŷn â'r cais. Byddwn hefyd yn hysbysu unrhyw un y derbyniwyd cyflwyniadau ynglŷn â'r cais ganddo/i.

Amodau caniatâd safonol

Wrth roi caniatâd, byddwn yn gosod dyddiad i chi ddechrau a gorffen y gwaith. Ni fydd y dyddiad dechrau yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y caniatâd a'r dyddiad gorffen yn hwyrach na deng mlynedd o ddyddiad y caniatâd.

Gallwn osod amodau eraill ar y cais hefyd sydd yn ein tyb ni'n angenrheidiol er mwyn sicrhau i'r amgylchedd gael ei ddiogelu rhag effeithiau'r prosiect. Gall y rhain fod yn ychwanegol i amodau arferol y Cynllun Grant Coetir, Cynllun Coedwig neu Trwydded Torri Coed.

Apelio yn erbyn ein penderfyniad

Os ydych wedi gwneud cais am ganiatâd, cewch apelio ynglŷn â'r penderfyniad a wnaed gennym i'r canlynol:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghymru;*
**Gweinidog Amaethyddiaeth Pysgodfeydd a Bwyd yn Lloegr;*
**Gweinidogion yr Alban (parthed yr Alban);*

Rhaid i chi wneud hyn o fewn 28 o ddiwrnodau calendr o dderbyn rhybudd o'n penderfyniad neu o fewn unrhyw gyfnod arall y bydd yr awdurdod llywodraethol* yn eu cytuno.

Mae modd i chi wneud apêl dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol:

a) mae'r Comisiynwyr Coedwigaeth wedi gwrthod y cais;
neu
b) mae'r Comisiynwyr Coedwigaeth wedi rhoi caniatâd ag amodau (yn ychwanegol i'r amodau safonol);
neu
c) rydym wedi gofyn i chi ddechrau a gorffen y gwaith o fewn cyfnod sydd yn llai na'r cyfnod mwyaf a ganiateir gan y Rheolau.

Hefyd, gall unrhyw un sydd yn tybio iddo gael cam oherwydd y caniatâd apelio o fewn 6 wythnos i'r *Llys** yn erbyn rhoi'r caniatâd os ydynt o'r farn bod hynny'n niweidio ei fuddiannau.

*Yr Uchel Lys yng Nghymru a Lloegr
*Llys Sesiynau yn yr Alban

Gyflawni gwaith heb ein caniatâd neu torri amodau'r caniatâd.

Os byddwn yn darganfod i chi gyflawni gwaith y byddai angen ein caniatâd ar ei gyfer, neu i chi dorri amodau'r caniatâd, gallwn gyflwyno Rhybudd Gorfodi i chi. Bydd hwn yn mynnu i chi wneud un neu fwy o'r canlynol:

a) atal y gwaith;

b) gwneud cais am ganiatâd;

c) adfer y tir i'w gyflwr cyn i'r gwaith ddechrau;

ch) cyflawni'r gwaith i sicrhau cydymffurfiad ar amodau;

d) gwaredu neu liniaru unrhyw niwed i'r amgylchedd a achoswyd gan y gwaith;

Apelio yn erbyn y Rhybudd Gorfodi

Cewch apelio yn erbyn cyflwyniad y Rhybudd Gorfodi i'r canlynol:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghymru;*
**Gweinidog Amaethyddiaeth Pysgodfeydd a Bwyd yn Lloegr;*
**Gweinidogion yr Alban (parthed Yr Alban);*

Rhaid i chi wneud hyn o fewn 28 o ddiwrnodau calendr o dderbyn rhybudd o'n penderfyniad neu o fewn unrhyw gyfnod arall y bydd yr awdurdod llywodraethol* yn eu cytuno.

Cael mwy o wybodaeth

Os bydd angen mwy o wybodaeth neu help arnoch chi, gan gynnwys sut i wneud apêl, cysylltwch â'r canlynol:
eich swyddfa leol o'r Comisiwn Coedwigaeth neu: **Grantiau a Thrwyddedau, Pencadlys y Comisiwn Coedwigaeth, 231 Corstorphine Road, Caeredin EH12 7AT**

Atodiad 1

Trothwyon am penderfyniad y Comisiwn Coedwigaeth ar a fydd angen penderfyniad ar gyfer y prosiect.

Gweithredu	Trothwy lle mae unrhyw ran o'r tir mewn ardal deimladwy	Trothwy lle nad oes unrhyw ran o'r tir mewn ardal deimladwy
Coedwigo	2 hectar lle mae'r tir o fewn Parc Cenedlaethol, Ardal Prydferthwch Naturiol Neilltuol (APNN/AONB) neu Ardal Brydferth Genedlaethol (ABG/NSA). Dim trothwy mewn ardaloedd teimladol eraill. *(gweler isod)*	5 hectar
Datgoedwigo	0.5 hectar lle mae'r tir mewn Parc Cenedlaethol, APNN/AONB neu Ardal Brydferth Genedlaethol (ABG/NSA). Pob argymhelliad mewn ardaloedd teimladol eraill *(gweler isod)* .	1 hectar
Ffyrdd coedwig	Pob Prosiect	1 hectar
Chwareli Coedwig	Pob Prosiect	1 hectar

Diffiniad 'ardaloedd teimladol':

At ddibenion y Tabl a ddangosir yn Atodiad 1, mae diffiniadau "ardaloedd teimladol" fel a ganlyn:

a) Gwarchodfa Natur Genedlaethol neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;

b) Parciau Cenedlaethol;

c) Llynnoedd Norfolk;

ch) Safle Treftadaeth Byd-Eang;

d) Henebion Rhestredig;

dd) Ardal o Brydferthwch Naturiol Neilltuol;

e) Mannau Treftadaeth Naturiol neu Ardaloedd Prydferthwch Cenedlaethol;

f) Safle a enwebwyd yn Ardal Gadwraeth Arbennig neu sydd yn ymgeisydd am y statws hwnnw; a

ff) Ardal Treftadaeth y Goedwig Newydd;

g) Safle Diogelwch Arbennig (dynodedig neu arfaethedig).

Atodiad 2

Gwybodaeth i'w cynnwys mewn Datganiadau Amgylcheddol

Rhestr 1 - Asesiad Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth) Rheolau 1999

Rhan 1

1) Disgrifiad o'r prosiect, gan gynnwys yn benodol:

   a) disgrifiad o nodweddion materol yr holl brosiect a'r gofyniadau defnydd tir yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithedru;

   b) disgrifiad o brif nodweddion y prosesau cynhyrchu, er enghraifft, natur a chyfaint y defnyddiau a ddefnyddir;

   c) amcangyfrif yn ôl math a chyfaint, o weddillion a gollyngiadau (llygredd dŵr, awyr a phridd, sŵn, dirgryniad, gwres golau, pelydriad ac yn y blaen) yn tarddu o weithredu'r prosiect arfaethedig.

2) Amlinelliad o'r prif ddewisiadau amgen a astudiwyd gan y datblygwr a chyflwyniad o'r prif resymau am ddewis y datblygwr, gan gymryd i ystyriaeth effeithiau amgylcheddol.

3) Disgrifiad o agweddau'r sydd yn debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol gan y prosiect arfaethedig, gan gynnwys, yn benodol, pobl, anifeiliaid, planhigion, pridd, dŵr, awyr, ffactorau hinsoddol, asedion materol gan gynnwys y dreftadaeth bensaernïol ac archeolegol, tirwedd a chydberthnasau rhwng y ffactorau uchod.

4) Disgrifiad o'r effeithiau sylweddol tebygol y prosiect arfaethedig ar yr amgylchedd, a ddylai gynnwys yr effeithiau uniongyrchol ac unrhyw effeithiau anuniongyrchol eilradd, crynhöol, cyfnod byr, canolig a hir, parhaus a dros dro, cadarnhaol a negyddol y prosiect, yn tarddu o'r canlynol:

   a) bodolaeth y prosiect;

   b) defnydd adnoddau naturiol;

   c) gollyngiad llygreddydion, creu aflonyddiadau a gwaredu gwastraff,

   a disgrifiad gan y datblygwr o ddulliau darogan a ddefnyddir i asesu effeithiau ar yr amgylchedd.

5) Disgrifiad o'r camau arfaethedig i arbed, lleihau a, lle'n bosibl, gwrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd.

6) Crynodeb an-nhechnegol o'r wybodaeth a ddarperir o dan baragraffau 1 i 5 uchod,

7) Mynegiad o unrhyw anawsterau (diffygion technegol neu ddiffyg gwybodaeth) a gafodd y datblygwr wrth roi'r wybodaeth angenrheidiol at ei gilydd.

Rhan II

1) Disgrifiad o'r prosiect yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r safle, dyluniadau a maint y prosiect.

2) Disgrifiad o'r camau a ragwelir er mwyn osgoi, lleihau ac o bosibl cywiro effeithiau andwyol sylweddol.

3) Y data angenrheidiol i adnabod ac asesu'r prif effeithiau y mae'r prosiect yn debygol o'u cael ar yr amgylchedd.

4) Amlinelliad o'r prif ddewisiadau amgen a astudiwyd gan y datblygwr a chyflwyniad o'r prif resymau am ddewis y datblygwr, gan gymryd i ystyriaeth effeithiau amgylcheddol.

5) Crynodeb an-nhechnegol o'r wybodaeth a ddarparwyd.